| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni ar 1af Hydref 2019. |

**Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol: Tlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni**

Dyddiad: 6 Ionawr 2020

**Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi**

**Cadeirydd**:

| |
|---|
| Mark Isherwood AC |

**Aelodau'r Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AC | Vikki Howells AC |

**Ysgrifenyddiaeth**

Carole Morgan-Jones (NEA Cymru), Cyfarwyddwr, National Energy Action Cymru, Ystafell 4E, 4ydd Llawr, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9HA. Carole Morgan-Jones Ffôn 02920 229322/07720591403. (Tan 31 Hydref 2019).

Bethan Proctor (NEA Cymru), Swyddog Polisïau ac Ymgyrchoedd, National Energy Action Cymru, Ystafell 4E, 4ydd Llawr, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9HA. E-bost bethan.proctor@nea.org.uk. Ffôn 02920 644520/07525323405. (Tan 31 Hydref 2019).

Adam Scorer (NEA) Prif Weithredwr, National Energy Action, Ystafell 4E, 4ydd Llawr, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9HA. E-bost adam.scorer@nea.org.uk. Ffôn 02920 229322/07720591403. (Dros Dro o 1/11/2019)

Adroddiad Blynyddol

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni ar 1af Hydref 2019.

Cyfarfodydd Blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

Cyfarfod 1

Dyddiad: 22ain Mai 2019

Yn bresennol

| **Yn bresennol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mark Isherwood AC (Cadeirydd)** | Aelod Cynulliad | | **Claire Durkin** | Ymddiriedolwr NEA Cymru |
| **Carole Morgan-Jones** | NEA Cymru | | **Christina Nascimento** | Prifysgol Caerdydd |
| **Bethan Proctor** | NEA Cymru | | **Sioned James** | Grŵp Plaid Cymru o Aelodau'r Cynulliad |
| **Andy Edwards** | A&E Energy | | **Kate Ball** | E.ON |
| **Phil Dawson** | E.ON | | **Simon Lannon** | Prifysgol Caerdydd |
| **Stephen Chamberlain** | Llywodraeth Cymru | | **Luke Wallace** | Cartrefi Melin |
| **Sarah Paul** | Llywodraeth Cymru | | **Dave Wallace** | Cartrefi Melin |
| **Nick Speed** | Centrica | | **Andy Parker** | Calor |
| **Isabelle Michelson** | Grayling | | **Sophia Haywood** | UKLPG |
| **Jonathan Cosson** | Cymru Gynnes | | **Liz Lambert** | Cyngor Caerdydd |
| **Rhian Cook** | Cartrefi Melin | | **Jyoti Atri** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Louise Woodfine** | Iechyd Cyhoeddus Cymru | | **Llyr Gryffudd AC** | Aelod Cynulliad |

Crynodeb o'r materion a drafodwyd

**1. Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd Mark Isherwood (MI) yr aelodau a'r rhanddeiliaid i'r cyfarfod. Nododd Carole Morgan-Jones (CMJ) yr ymddiheuriadau a ddaeth i law. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018. Dechreuodd MI drwy dynnu sylw at ffigurau tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru a ryddhawyd ar 21 Mai 2019. Roeddent yn dangos gostyngiad yn nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd, o 26% yn 2008 i 12% yn 2018. Yn ôl NEA Cymru, mae'r ffigurau'n galonogol ond bydd yn hanfodol cynnal archwiliad pellach pan gaiff y dadansoddiad manwl ei ryddhau yn yr haf.

**2. Jyoti Atri a Louise Woodfine Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Croesawodd MI Jodi Atri (JA) a Louise Woodfine (LW) o Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chafwyd cyflwyniad ganddynt ynghylch yr hyn a gynlluniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran tywydd oer, er mwyn cefnogi aelwydydd sy'n agored i niwed. Cafwyd gwybod am ystadegau o ran marwolaethau ychwanegol y gaeaf, a chafwyd trafodaeth ynghylch y rheini sy'n agored i niwed. Bu cynnydd yn

nifer y marwolaethau hynny yn ystod gaeaf 2017-18. Cafodd y rhesymau dros y pwysau yn ystod y gaeaf eu rhestru, ac yn eu plith roedd diffyg paratoi, bod yn agored i niwed, tai oer, tlodi tanwydd, a gwasanaethau gofal sylfaenol sydd o dan bwysau. Amlygwyd mai yng Nghymru y mae'r gyfradd uchaf yn y DU o dderbyniadau i'r ysbyty yn ystod y gaeaf, er bod y tymheredd yn oerach yn yr Alban. Dangosodd JA gyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru tuag at ostwng effaith y tywydd oer, yn cynnwys prosiect pwysau'r gaeaf, cynllunio ar gyfer y ffliw, modelau gofal newydd ac atal o fewn amgylchiadau clinigol (Gwneud i bob Cyswllt Gyfrif).

Cyfeiriodd LW at feysydd gweithgaredd presennol, yn cynnwys adroddiad ar gost llawn tai o safon gwan yng Nghymru sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru gyda BRE ac y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi cyn hir. Bydd yr adroddiad yn dadlau dros fuddsoddi ym maes iechyd a thai yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried ymyriadau yn y DU a thu hwnt.

Ymhlith gweithgareddau eraill, cafwyd gwaith iechyd a thai ar y cyd a chefnogi meysydd arfer da. Cyfeiriodd LW at effaith tai oer ar iechyd a lles, gan bwysleisio bod plant sy'n agored i niwed ddwy waith yn fwy tebygol o gael problemau anadlu oherwydd eu bod yn byw mewn tai oer. Nododd LW mai £2,500 fesul cartref yw'r gost amcangyfrifredig ar gyfer gwella tai oer, ac mai hon yw'r ffordd fwyaf effeithlon o ostwng y gost i'r GIG. £95 miliwn y flwyddyn yw cost tai oer i GIG Cymru. Siaradodd LW am waith cydweithredol gyda Chymru Gynnes, rhaglen ar y cyd â Chartrefi Cymunedol Cymru, grŵp iechyd cyhoeddus a thai, rhestr wirio bwrdd iechyd, a chefnogaeth ar gyfer y cynllun Cartrefi Iach Pobl Iach yng Ngogledd Cymru.

**3. Stephen Chamberlain (SC), Adran Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru**

SC sy'n arwain y gwaith o ddatblygu'r cynllun tlodi tanwydd newydd. Nodwyd bod angen cryfhau sawl pwynt o fewn y cynllun newydd. Gofynnodd SC a ddylid diwygio'r diffiniad o dlodi tanwydd. Nodwyd y gallai Llywodraeth Cymru ehangu'r penderfynyddion i gynnwys effeithiau newid hinsawdd ar gadw tŷ'n gynnes, ac agweddau ac ymddygiad deiliaid tai tuag at ddefnyddio technoleg. Pwysleisiwyd bod perchen ar eiddo yn golygu'r cyfrifoldeb o gynnal eiddo.

Cytunodd y Gweinidog i gynllun peilot cyflwr iechyd a bydd y dull newydd yn datgan a fydd hwnnw'n cael ei gynnwys. Rhoddwyd ystyriaeth i'r dull atgyfeirio. Roedd y trothwy ariannol yn rhy isel a'r meini prawf ar gyfer y raddfa EPC yn rhy isel hefyd, a heb eu halinio â Chanllawiau NICE ar gyfer osgoi salwch.

Nid yw'r cynllun presennol yn ymdrin â'r cyllid ar gyfer mesurau, felly eir i'r afael â hynny yn ogystal ag arloesedd. Nodwyd hefyd y bydd cydlynu gwasanaethau cynghori'n cael ei ystyried yn y cynllun newydd hefyd. Daeth SC i derfyn gan sôn y bydd rhanddeiliaid yn cyfarfod yn yr haf, a bod dogfen gyhoeddedig yn yr arfaeth i'w rhyddhau ar gyfer ymgynghori yn yr hydref, a'r nod yw cyhoeddi cynllun terfynol ym mis Chwefror 2020.

4. **Trafodaeth**

Gofynnodd CMJ am yr ystadegau newydd ynghylch tlodi tanwydd. Dywedodd SC ei bod yn anodd credu bod gostyngiad o'r fath wedi digwydd mewn dwy flynedd. Esboniwyd bod data 2016 yn seiliedig ar set ddata anghyfredol. Er bod y ffigurau'n gadarnhaol, mae gofyn bod yn ofalus bod cynllun newydd yn cefnogi'r rheini y mae angen y mwyaf o gymorth arnynt, ac sy'n profi tlodi tanwydd ar ei waethaf.

Gofynnodd Llyr Gryffudd AC pa newid oedd wedi digwydd mewn ymateb i'r datganiad brys ynghylch newid hinsawdd. Dywedodd SC na fydd mwy o losgwyr tân olew, mae'n bosibl yr ystyrir gosod capiau ar wariant yn y rhaglen tai cynnes, a rhoddir ystyriaeth i ffynonellau glanach o ffynonellau gwres. Bydd yr adroddiad ynghylch Datgarboneiddio Tai yn cael ei ryddhau'n hwyrach eleni, a bydd yn helpu i lywio'r gwaith o fodloni'r amcanion o ran newid hinsawdd yn fwy eang yn y dyfodol. Holodd LG a gymerwyd camau cyflymach, yn hytrach na 'busnes fel arfer' wrth ymateb i'r datganiad ynghylch newid hinsawdd. Dywedodd SC fod swyddogion eisoes yn ystyried y materion hyn ac y byddai'r datganiad yn ei gwneud yn fwy gweladwy ar gyfer gwaith oedd eisoes yn mynd rhagddo.

Dywedodd SC y bydd newid agweddau ynghylch y modd y defnyddiwn ynni yn ffactor allweddol wrth symud ymlaen, ac mae'n bosibl y bydd angen cynghori gwasanaethau sy'n cynnig mwy o gefnogaeth nag ar hyn o bryd, gyda chamau dilynol parhaus.

Gofynnodd CMJ i PHW am y cynllun tywydd oer yr ymrwymodd y Gweinidog iddo yn y Grŵp Trawsbleidiol blaenorol ym mis Medi. Dywedodd JA nad oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gwybod ymlaen llaw am yr ymrwymiad hwn gan y Gweinidog. Nododd SC fod cynllun tywydd oer mewnol yn bodoli, ond nad yw wedi ei gyhoeddi. Dywedodd LW fod disgwyl adroddiad cynllunio ar gyfer y gaeaf ym mis Awst, a bydd hwnnw'n ei dro yn hysbysu Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd CMJ a fyddai unrhyw ymrwymiad i darged newydd o ran tlodi tanwydd yn y cynllun tlodi tanwydd newydd? Ymatebodd SC drwy ddweud nad yw bodloni safon EPC yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd a thra bod angen targedau ystyrlon, bod gormod o benderfynyddion y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Roedd yn hapus i weithio gyda rhanddeiliaid ar darged uchelgeisiol.

Ailbwysleisiodd MI ymrwymiad y Gweinidog i gynllun tywydd oer mewn cyfarfod blaenorol o'r grŵp trawsbleidiol ym mis Medi 2018, a gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth ddrafftio llythyr ar ei gyfer, i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am eglurhad ynghylch y mater hwn.

**5. Cau**

Diolchodd CMJ i PHW a LlC am eu cyflwyniadau. Gofynnwyd a oedd gan y rheini oedd yn bresennol unrhyw awgrymiadau ar gyfer materion yr oeddent am eu trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymodd Sophia Haywood UKLPG yr agenda datgarboneiddio. Awgrymodd MI y modd rydym yn mynd i'r afael â thai hŷn. Awgrymodd CMJ y dylid gwahodd Gowan Watkins o Lywodraeth Cymru i egluro'r dadansoddiad manwl o'r ystadegau tlodi tanwydd, y byddant yn cael eu ryddhau yn yr haf.

**6. Y cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni ar 1 Hydref 2019.

Cyfarfod 2

1 Hydref 2019

**Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

Yn bresennol

Adroddiad Blynyddol

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni ar 1af Hydref 2019.

| **Yn bresennol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mark Isherwood AC (Cadeirydd)** | Aelod Cynulliad | | **Crispin Jones** | Arbed Am Byth |
| **Carole Morgan-Jones** | NEA Cymru | | **Ben Sears** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **Ben Saltmarsh** | Ynni Clyfar GB | | **Rob Palmizi** | Cyngor ar Bopeth |
| **Gowan Watkins** | Llywodraeth Cymru | | **Simon Lannon** | Prifysgol Caerdydd |
| **Phil Dawson** | E.ON | | **Liz Lambert** | Cyngor Caerdydd |
| **Stephen Chamberlain** | Llywodraeth Cymru | | **Caroline Summers** | Cartrefi Melin |
| **Rhian Cook** | Cartrefi Melin | | **Steffan Evans** | Sefydliad Bevan |
| **Juliet Morris** | Gofal a Thrwsio Cymru | | **Andrew Padmore** | Egnida |
| **Isabelle Michelson** | Grayling | | **Ben Coates** | Grayling |
| **Jonathan Cosson** | Cymru Gynnes | | **Mike Anderson** | Ofgem |
| **Tim Thomas** | NRLA | | **Claire Cunliffe** | Oxfam Cymru |
| **Jasmine Jones** | Sipsiwn a Theithwyr | | **Rita Singh** | Kingspan |

| **Ymddiheuriadau**: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adam Price** | Plaid Cymru | | **Tyler Walsh** | Y Ceidwadwyr Cymreig |
| **Dawn Shakespeare** | UKIFDA | | | |

Crynodeb o’r materion a drafodwyd

**1. Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd Mark Isherwood (MI) yr aelodau a’r rhanddeiliaid i’r cyfarfod. Nododd Carole Morgan-Jones (CMJ) yr ymddiheuriadau a ddaeth i law. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 22 Mai 2019.

Dechreuodd MI arni drwy amlygu diweddariad cyhoeddedig Llywodraeth Cymru ynghylch y Rhaglen Cartrefi Cynnes a’r adroddiadau Nyth ac Arbed diweddaraf ar gyfer 2018-19, a gyhoeddwyd yn yr haf. Ers i’r cynlluniau gwella effeithlonrwydd ynni ddechrau 9 mlynedd yn ôl, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £265 miliwn yn y cynlluniau, ac mae 54,800 o gartrefi wedi bod ar eu hennill yn sgîl gwella effeithlonrwydd ynni.

Dangosodd y Cynllun Nyth ar gyfer 2018-19 fod cyllid o £15.9 miliwn wedi rhoi help a chefnogaeth i 15,606 o bobl, trwy gyfeirio at nifer o wasanaethau trydydd parti. Yn ogystal, mae mwy na 3,800 o gartrefi wedi bod ar eu hennill yn sgîl mesurau effeithlonrwydd ynni cartref. Yn ôl adroddiad blynyddol cyntaf y cynllun Arbed Am Byth, rhoddodd Llywodraeth Cymru dros £1.2 filiwn o arian er mwyn i 145 o gartrefi fod ar eu hennill a gwella eu heffeithlonrwydd ynni.

At hynny, ym mis Gorffennaf cyhoeddodd y Grŵp Cynghori Datgarboneiddio Cartrefi Presennol ei adroddiad 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell' gan wneud argymhellion ynghylch y ffordd orau o ddarparu rhaglen hirdymor o welliannau tai, er mwyn bodloni’r targedau datgarboneiddio. Un o'r argymhellion allweddol oedd i Lywodraeth Cymru ymrwymo i raglen datgarboneiddio preswyl 30

mlynedd o hyd, a rhoi blaenoriaeth i ôl-ffitio cartrefi tanwydd tlawd a chartrefi cymdeithasol dros y 10 mlynedd nesaf i lefel Band A EPC.

**2. Gowan Watkins, Pennaeth Rhaglen Cyflwr Tai Cymru, Llywodraeth Cymru**

Croesawodd MI Gowan Watkins (GW) o Lywodraeth Cymru a roddodd gyflwyniad ar ganfyddiadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 gan roi data wedi'i ddiweddaru ynghylch cyflwr stoc tai yng Nghymru. Mae'r canlyniadau'n dangos bod 69% o anheddau yng Nghymru yn y sector perchen-feddiannu yn 2017-18, y gyfradd isaf ers 1993 a gostyngiad o 4 pwynt canran o'i gymharu â 2008. Mewn cyferbyniad, roedd canran yr anheddau rhentu preifat ar ei lefel uchaf ers 1981, sef 13% a'r sector rhentu cymdeithasol ar 18%. Cymru sydd â'r stoc anheddau hynaf yn y DU gyda dros chwarter yr holl anheddau (26%) wedi'u hadeiladu cyn 1919. Y sgôr SAP cyfartalog ar gyfer annedd preswyl yng Nghymru oedd 61, sef y sgôr isaf ledled y DU, sy'n cyfateb i fand D EPC.

O ran lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru, yn ôl yr arolwg, yn 2018 roedd 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd, â hynny'n gyfwerth â 12% o'r holl aelwydydd, ac roedd 19,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Mae nodweddion y rheini sydd mewn tlodi tanwydd yn awgrymu mai'r math mwyaf cyffredin o aelwydydd yn 2018 oedd aelwydydd pensiynwyr sengl (29%) ac aelwydydd person sengl (22%).

Fodd bynnag, aelwydydd yn y sector rhentu preifat oedd â'r gyfran uchaf o aelwydydd mewn tlodi tanwydd. Roedd oddeutu 20% o'r holl aelwydydd rhentu preifat mewn tlodi tanwydd, o gymharu ag 11% yn eiddo i berchen-feddianwyr a 9% yn dai cymdeithasol.

Roedd aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi tanwydd. O'r holl aelwydydd mewn ardaloedd gwledig, roedd 14% yn dlawd o ran tanwydd, o'u cymharu â 10% o bob aelwyd mewn ardaloedd trefol.

Roedd nifer fawr o aelwydydd ymhlith y rhai nad oes ganddynt systemau gwres canolog, mewn tlodi tanwydd. Ymhlith yr aelwydydd hynny, mae'r ganran sy'n byw mewn tlodi tanwydd yn codi i 39%.

**3. Stephen Chamberlain Adran Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd, Llywodraeth Cymru**

Amlinellodd Stephen Chamberlain (SC) y meddylfryd cyfredol ynghylch cynnwys tebygol cynllun tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddo fod ar gael ar gyfer ymgynghori cyn hir. Soniodd fod y cynllun peilot cyflyrau iechyd yn debygol o gael ei ymgorffori yn y cynllun tlodi tanwydd Nyth ehangach. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad tirwedd a fydd yn helpu i lywio ei ddatblygiad.

O ran targedau o fewn yr ymgynghoriad, roedd Llywodraeth Cymru am weld targedau ystyrlon, ond mae'n annhebygol o fod yn darged i ddileu tlodi tanwydd a bydd yn fwy tebygol o ddilyn dull gweithredu Llywodraeth yr Alban o leihau tlodi tanwydd i lefel 'dderbyniol'.

Mae'r diffiniad o dlodi tanwydd hefyd yn annhebygol o newid a bydd yn parhau i ddefnyddio'r diffiniad o 10%. Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i ddefnyddio mesur o'r gostyngiad mewn cilowat yr awr a ddefnyddir gan yr aelwyd yn hytrach na gwella eiddo i sgôr benodol EPC.

| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni ar 1af Hydref 2019. |

Mae Llywodraeth Cymru am i'r cynllun ganolbwyntio ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn hytrach na gwella effeithlonrwydd ynni'r cartref yn unig. O ganlyniad, nodwedd allweddol o'r cynllun newydd fydd gwella gwasanaethau cyngor a chymorth i aelwydydd.

**4. Trafodaeth**

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch manylion y data ac a allech gael gafael ar fanylion stryd ac eiddo o'r arolwg. Soniodd GW y gellir gwneud hyn trwy gytundeb mynediad at ddata.

Gofynnodd MI am y cynllun tywydd oer, ond nodwyd y byddai parodrwydd ar gyfer y gaeaf yn cael ei gynnwys, yn hytrach na chynllun ffurfiol.

**5. Cau**

Diolchodd MI i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau ac i'r rhanddeiliaid am fod yno.

**6. Y cyfarfod nesaf**

Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol; caiff ei rannu maes o law.

**Datganiad Ariannol Blynyddol: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd**

Dyddiad: 6 Ionawr 2020

Cadeirydd: Mark Isherwood AC

Ysgrifenyddiaeth

Carole Morgan-Jones (NEA Cymru) tan 31 Hydref 2019

Adam Scorer (NEA) Dros dro o 1 Tachwedd 2019 ymlaen

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau** | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |

| | | |
|---|---|---|
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall** | Ni chafwyd cymorth ariannol. Darparwyd ysgrifenyddiaeth gan NEA Cymru | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarperir i'r Grŵp megis lletygarwch.** Talodd NEA Cymru am y lluniaeth. | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| 12 Rhagfyr 2018 | NEA Cymru (lluniaeth (te/coffi dŵr a chacennau cri) | £36.42 |
| 22 Mai 2019 | NEA Cymru (lluniaeth (te/coffi dŵr a chacennau cri) | £52.32 |
| 1af Hydref 2019 | N/A | £0 |
| | **Cyfanswm y gost** | **£88.74** |
| | | |